

FREE
AM DDIM

rhifyn/issue 20
gwanwyn/spring 2008

on trac

cylchgrawn **trac** magazine

Byddwch yn rhan o'r
Arbrawf Mawr!

Be part of the
Big Experiment!

**trac**

folk development for wales
datblygu traddodiadau gwern

dyfodol y traddodiad a thraddodiad y dyfodol

the future of the tradition and the tradition of the future

Swnio'n Iach!

Partneriaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru yw'r cynllun "Seiniau Iach!", sy'n hyrwyddo perfformiadau cerddorol mewn ysbytai gan grwpiau amatur. Wrth hyrwyddo'r cynllun hwn, mae Gweinidogion yn cydnabod cyfraniad cerddoriaeth amatur i fywyd yn y gymuned leol, a'r budd i iechyd a lles yn gyffredinol sy'n dod o gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol.

O dan delerau'r cynllun, ni fydd unrhyw daliad yn cael ei wneud i gerddor unigol, ond bydd hi'n bosib hawlio, ar gyfer pob perfformiad, **rhodd o £200, yn ogystal â threuliau, a hynny'n daladwy i'r grŵp/gymdeithas sy'n perfformio.** (Mae'n bosib trefnu mwy nag un perfformiad, ond dylid sicrhau cydsyniad y Ffederasiwn, a hynny ymlaen llaw, os fyddwch am drefnu (a chyllido) cyfres o berfformiadau)

Mae WAMF/FfCAC yn gobeithio y bydd grwpiau cerddorol amatur yn manteisio ar y cynllun yma, ac yn ei ddefnyddio nid yn unig fel ffynhonnell incwm ychwanegol, ond hefyd fel ffordd o gryfhau eu cysylltiadau gyda chymunedau lleol.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â Keith Griffin o WAMF/FfCAC yn Nhŷ Cerdd ar 029 20 635640 neu ewch i'w gwefan yn <http://tycerdd.org>

Llongyfarchiadau i Phyllis a Merêd

Llongyfarchiadau i Phyllis Kinney a Meredydd Evans wrth iddynt ddathlu eu penblwydd priodas diamwnt ym mis Ebrill. Mae'r ddau ymhlith haneswyr cerdd mwyaf blaenllaw ein cenedl, ac mae eu cyfraniad at gofnodi, at berfformio a gwerthfawrogi cerddoriaeth draddodiadaol Cymru wedi bod, ac yn dal i fod, yn amhrisiadwy.

Cylchgrawn trac, corff datblygu gwerin Cymru, yw Ontrac. Mae trac yn bodoli er mwyn cefnogi'r rhai sy'n gwneud gwahaniaeth i'r celfyddydau traddodiadol o fewn Cymru, boed yn perfformwyr, cyflwynwyr, athrawon neu'n selogion. Mae ar gael yn rhad ac am ddim a chaff ei bostio atoch dair gwaith flwyddyn.

Gŵyl Werin newydd yn Sir y Fflint ...

Eleni fe fydd ddiwyddiad newydd sbon yn Yr Wyddgrug, i'w gynnal ar **15fed-16eg Awst, 2008.** Gŵyl traddodiadau celfyddyd cyhoeddus fydd **Tegeingl** (yr hen enw Rhufeinig ar deyrnas Ogledd-dwyrain Cymru).

Mae Tegeingl yn enwi ei hun 'Gŵyl y werin gudd'. Meddai'r trefnwyr "Trwy'r ŵyl byddwn yn adlewyrchu'r gelfyddyd a'r diwylliant gwerin gyfoethog sydd wedi datblygu a goroesi yma yn ardal y Decangli ar hyd y canrifoedd. Mae lleoliad Tegeingl/Sir y Fflint yma ar y ffin gyda'r llanw a thrai o ddiwylliannau yn golygu bod cymysgedd cyfoethog ac unigryw iawn o hanes, treftadaeth a chelfyddyd yn yr ardal.

Bydd yr ŵyl yn ddrws agored y gall ymwelwyr o bell ac agos gamu trwyddo i brofi a chymryd rhan yn y gorau o ddiwylliant ac adloniant Cymraeg a Chymreig. Amcan arall yw darparu llwyfan yng Nghymru i artistiaid o wledydd eraill. Bydd caneuon, alawon, dawnsfeydd a chwedlau gwerin traddodiadol a chyfoes ein hardal a'n gwlad yn cael sylw a llwyfan ochr yn ochr â'u bath o wledydd eraill."

Bydd nifer fawr o stondinau crefftau a chynnyrch lleol, offer a cherddoriaeth, ac ystod o berfformwyr yn gynnwys Siân James, Les Barker, Jez Lowe, Crasiant a Steve Tilston.

Mae mwy ar www.tegeingl.com

...wrth i Bonty ddathlu 30 mlynedd o gerddoriaeth

Tra i lawr yn y de, ar yr un penwythnos, bydd Gŵyl Pontardawe'n dathlu "30 mlynedd o

Y RNIB yn cynnal sesiwn delyn ymarferol

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae trac wedi bod yn ymweld â chynadleddau'r pleidiau politicaidd fel rhan o'n gwaith eirioli, er mwyn tynnu sylw ein gwleidyddion at bethau fel Trwyddedi ac at botensial cerddoriaeth werin a dawnsio gwerin ym myd addysg, iechyd a lles a thwristiaeth a datblygu economaidd.

Mae ymweld â'r cynadleddau wedi bod yn help mawr wrth i trac geisio cyflwyno ei waith i grwpiau nad ydynt fel arfer yn ymwneud â cherddoriaeth draddodiadol. Un o'r rhain oedd RNIB Cymru.

Daeth staff a gwirfoddolwyr craidd o dros Gymru gyfan at eu gilydd yn Llandudno ym mis Chwefror ar gyfer un o'i Digwyddiadau Rhwydweithio cyson. Yn ychwanegol at yr agenda hyfforddiant 'arferol', cafodd y mynychwyr gyflwyniad ymarferol i'r delyn, yng nghwmni'r delynores Amanda Munday.

Tair telyn fach

Erbyn hyn mae trac yn falch i ddweud ein bod yn berchen ar dair telyn "Dryw Bach", o wneuthuriaid Telynau Teifi. Mae'r rhain ar gael ar fenthg am gyfnod byr (ar delerau rhesymol iawn) i ysgolion neu gymunedau, neu i delynorion sydd am gynnig sesiynau blasu. Cysylltwch â trac am fanylion llawn.

greu cerddoriaeth go-iawn". Ewch i www.pontardawefestival.com i weld y wybodaeth ddiweddaraf.

New Readers Start Here ...

Ontrac is the magazine of trac, the folk development organisation for Wales. trac exists to support those who are making a difference to the traditional arts within Wales - performers, teachers, presenters or enthusiasts. It's available free and will be posted to you three times a year.

Three little harps

trac is now the proud possessor of three "Little Wren" harps, produced by Telynu Teifi. These are available for short-term loan (at very very reasonable terms) to schools or communities, or to harpers looking to run taster sessions. Contact trac for full details.

Sounds healthy!

The "Healthy Sounds!" scheme, is a partnership between the Welsh Assembly Government and the Welsh Amateur Music Federation to provide music in hospitals through performances by amateur music groups.

In promoting this scheme, Ministers acknowledge the contribution that amateur music makes to life in the local community, and the benefits to general health and well-being that come from participation in music activity.

Under the scheme, no payment can be made an individual musician, but a **donation of £200, plus expenses, payable to the performing group/society** may be claimed for each performance. (More than one performance may be arranged, but agreement for funding for a series of performances should be discussed with the Federation.)

WAMF hopes that amateur musical groups will take advantage of this scheme, and use it not only as a means of raising additional useful income, but to strengthen ties with local communities.

For further information, contact Keith Griffin of WAMF at Tŷ Cerdd on 029 20 635640 or go to their website at <http://tycerdd.org>

New festival for Flintshire ...

This year sees the launch of a brand new event in Mold on the 15th-16th August, 2008. Tegeingl, called after the old Roman name for north-east Wales, will be a festival of traditional performance arts.

Tegeingl calls itself 'the festival of hidden folk'. The organisers say "Through the festival we hope to reflect the rich art and folk culture that has developed and survived here in the land of the Decangli across the centuries. Tegeingl / Flintshire's location on the border with the ebb and flow of cultures has contributed to the rich and unique mixture of history, heritage and art found here.

The festival will be an open door that visitors from near and far can step through to experience the best of Welsh entertainment and culture. It will also provide a stage in Wales for artists from across the world. We will give prominence to folk dances, tunes and tales from our region, side by side with those from other cultures."

There will be a wide range of craft stalls and local produce as well as musical instruments and music, and performers booked so far include Siân James, Les Barker, Jez Lowe, Crasdant and Steve Tilston.

More details at www.tegeingl.com

...as Ponty celebrates 30 years of music

Meanwhile down south, on the very same weekend, Pontardawe Festival celebrates "30 years of making real music". Keep up to date with their news at www.pontardawefestival.com

RNIB has hands-on harp session

Over the past year trac has been visiting the party political conferences as part of our advocacy work, bringing to politicians' attention issues like the PEL and the potential of traditional music and dance in education, health and well-being, and tourism and economic development.

Visiting the conferences has also helped trac introduce its work to groups not normally involved in traditional music. One of these was RNIB Cymru.

Staff and core volunteers across Wales met in February in Llandudno for one of their regular networking events. This time, in addition to their 'usual' training agenda, attendees tried a hands-on introduction to the harp, with harpist Amanda Munday.



RNIB staff member Jo Stapleton enjoying 'having a go' on a harp

Congrats to Phyllis and Merêd

Congratulations to Phyllis Kinney and Meredydd Evans who celebrate their diamond wedding anniversary in April. Two of Wales' leading music historians, their contributions to preserving, performing and valuing Welsh traditional music have been, and continue to be, immense.

Yn 2004 gofynnwyd y cwestiwn, “Ydy Cymru eisiau digwyddiad cerddoriaeth draddodiadol breswyl?” Eich ateb chi oedd ‘ydy’. Felly, dyma fe:

Yr Arbrawf Mawr



Llun: Peter Humphreys

Mae'n weithdai. Mae'n sesiynau. Mae'n ganeuon ac alawon a thiwora a ... hwy!

Ac mae'n cael ei gynnal yng **Ngholeg Harlech** o nos lau, **30 Hydref** tan ddydd Sul, **2 Tachwedd**

Dyn ni dal wrthi'n trefnu presenoldeb y tiwtoriaid gorau posib, ond gall trac eisoes gadarnhau bod Maartin Allcock, Robin Huw Bowen, Arfon Gwilym a Ceri Rhys Matthews yn eu msg. Mae rhagor i ddod!

Tiwtor gwadd 'arbennig' y digwyddiad fydd yr offerynnwr amryddawn a'r cyfansoddwr Brian McNeill, sylfaenydd "The Battlefield Band", a than yn ddiweddar Pennaeth Cerddoriaeth Albanaidd yn Academi Frenhinol Cerdd a Drama yr Alban. Bydd Brian yn cynnal Sesiwn Meistr dyddiol, er mwyn i'r tiwtoriaid gael y cyfle i arddangos eu talentau.

Mae mwy a mwy o bobl yn canu ac yn chwarae caneuon ac alawon gwerin yng Nghymru heddiw. Mae Clera, Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru a Chymdeithas Ddawns Werin Cymru – yn ogystal â nifer o wyliau, clybiau a sesiynau – yn cynnal ac yn ychwanegu at y nifer o bobl sy'n 'ymwneud â'r traddodiad'. Pan ofynnodd trac pa weithgareddau ychwanegol 'roeddech am weld, yr ateb oedd: cyfle i gael eich herio fel cerddorion (ar wahanol lefelau), i ddatblygu sgiliau chwarae mewn ensemble, ac i ddod â phobl o Gymru gyfan at eu gilydd i ddysgu ac i fwynhau gyda'i gilydd.

Offerynnwyr: byddwch chi'n gweithio mewn grwpiau sy'n addas i'ch lefel gallu, a bydd un o'n tiwtoriaid gwych yn eich arwain drwy'r alawon a'r technegau. Cantorion: byddwch chi'n dysgu am ganu gwerin Cymraeg, cerdd dant a'r Plygain. Ar ddiwedd bob diwrnod dysgu fydd na Sesiwn Feistr o dan arweiniad Brian McNeill lle y bydd y tiwtoriaid a'r cerddorion mwya galluog yn cael y cyfle i ddisgleirio.

Bydd digon o amser i dderbyn hyfforddiant dwys "trwyn ar y maen" yn ogystal ag amser ar gyfer chwarae hamddenol. Bydd na bytiau bach o hanes a chefnidir, a dognau mawr o ddysgu wrth draed y meistri.

Gyda'r nos, fydd y grwpiau'n cael y cyfle i arddangos yr hyn y maent wedi'i ddysgu yn ystod y dydd, ac i ymdoddi'n osgeiddig – neu fel arall – i sesiynau anffurfiol. (D.S.Nos Galan Gaeaf yw'r nos Wener: mae gennym ambell i sylw i wneud am hynny ...)

Hyn oll am dridiau yn Harlech hudolus. Bydd cost y pecyn llawn, gan gynnwys costau tiwtora a llety, yn amrywio o £140 i £210. Cynigir bris gostyngol i fyfyrwyr llawn-amser, a bydd na ddwy ysgoloriaeth i gerddorion ifanc (18 – 25) nad ydynt yn ymwneud â cherddoriaeth draddodiadol ar hyn o bryd, ond sydd am 'brofi'r dyfroedd'. Yn ogystal, bydd 'cyfradd dyddiol' ar gyfer rheini sy'n byw yn lleol neu sydd am drefnu eu llety eu hunain.

Nodyn ynglyn â phlant; 'dyw'r digwyddiad ddim yn addas i blant

ifanc ar eu pennau eu hunain ond mae croeso iddynt fynychu ymg nghwmni oedolyn. Cysylltwch â ni am fanylion.

"Yr Arbrawf Mawr" 'dyn ni wedi'i alw gan taw dyna beth yw e'. Tasg trac yw dod â'r holl elfennau ynghyd – ond ni all neb fod yn siwr beth fydd pen draw'r digwyddiad. Mae hynny yn eich dwylo chi.

Siân Thomas

Mae gyrfa broffesiynol BRIAN McNEILL wedi pontio mwy na thri degawd ac mae'n cael ei gydnabod fel un o gerddorion mawr yr Alban, yn gân-sgrifennwr, yn gyfansoddwr, yn gynhyrhydd a chyfarwyddwr cerdd, yn ogystal â fel perfformiwr. Yn 1969 fe oedd sylfaenydd y *Battlefield Band* a ddaeth i fri fel un o *ensembles* mwyaf nodedig yr Alban.

Mae Brian yn chwarae'r ffidl, y ffidl wythawd, y gitâr, y mandocello, y bouzouki, y feiola, y mandolin, y sitern, y consortina, y bâs a'r hyrdi-gyrdi. Mae pwysigrwydd ei ganeuon, y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â gorffennol a dyfodol yr Alban, wedi'i hen gydnabod.

Yn 2001 cafodd Brian ei ddyrchafu i swydd Pennaeth Cerddoriaeth yr Alban yn Academi Frenhinol Cerdd a Drama yr Alban, swydd a gyflawnodd hyd at eleni. Ar hyn o bryd mae'n canolbwytio ar gerddoriaeth, cynhyrchu ac ysgrifennu.

wefan: www.brianmcneill.co.uk

In 2004 we asked the question,
“Does Wales want a residential traditional music event?”
You said **yes**. It’s yours:

The Big Experiment

It’s workshops. It’s sessions. It’s songs and tunes and tutorials and ... fun.

It’s happening at **Coleg Harlech** from the evening of Thursday, **30 October** straight through till Sunday, **2 November**.

Top tutors are now being signed up but trac can tell you that they include Maartin Allcock, Robin Huw Bowen, Arfon Gwilym and Ceri Rhys Matthews. More, to follow!

Special ‘guest’ for the event will be multi-instrumentalist and composer Brian McNeill, founder of The Battlefield Band and until recently Head of Scottish Music at the Royal Scottish Academy of Music and Drama. Brian will run a daily Master Session where the tutors will show us what they’re made of.

More and more people are singing and playing folk songs and tunes in Wales today. Clera, Welsh Folk Song Society, Cerdd Dant Society and Welsh Folk Dance Society – as well as many festivals, clubs and sessions – are maintaining and growing the numbers of people ‘in the tradition’. When trac asked you what ‘more’ you might want, the answer was a chance to be stretched as musicians (at various levels), to develop ensemble playing, and to bring together people from across Wales to learn and have fun together.

Instrumentalists: you’ll work in groups appropriate to your skill level where you’ll be guided by one of our top tutes in tunes and techniques.
Singers: you’ll be learning about

Welsh folk song, cerdd dant and Plygain. The tuition day will end in the Master Session run by Brian McNeill to let the tutors and senior musicians shine.

There’ll be time for serious ‘nose-to-the-grindstone’ instruction, and time for just noodling around as well. There’ll be small doses of history and background, and big dollops of learning from the masters.

Evenings will show off what groups have learned during the day, and dissolve gracefully – or otherwise – into informal sessions. (N.B. the Friday night is Hallowe’en; we have some thoughts on that ...)

All this for three days in the craggy spectacle that is Harlech. The full package, including tuition and accommodation, ranges from £140 to £210. Reduced rates are available for full-time students, and there’ll be two scholarships for young musicians (18 – 25) who aren’t currently involved in traditional music but want to test the water. There will also be a ‘day rate’ for those who live locally or want to find their own accommodation.

A note about children: this isn’t designed for young unaccompanied children but children are welcomed when accompanied by an adult. Contact us for details.

We’ve called it “The Big Experiment” because it is just that. trac is bringing together the elements – but no one is quite sure what the result will be. The chemistry will be up to you.

Siân Thomas



BRIAN McNEILL’s professional career spans more than three decades and he is now acknowledged as one of Scotland’s great musical forces, as a songwriter, composer, producer and musical director, as well as a performer. In 1969 he formed the *Battlefield Band*, which became one of Scotland’s best known ensembles.

Brian plays fiddle, octave fiddle, guitar, mandocello, bouzouki, viola, mandolin, cittern, concertina, bass and hurdy gurdy. The importance of his songwriting, mostly about Scotland’s past and future, has long been recognised.

In 2001 Brian was made Head of Scottish Music at the Royal Scottish Academy of Music and Drama, a post he held until this year. He is now concentrating on music, production and writing.

website: www.brianmcneill.co.uk

Gŵyl Ryng-geltaidd Lorient 2008

Yn dilyn gweithgareddau Cymru yn Celtic Connections yn 2007, ac yn arwain at Gymru yn yr Wyl Smithsonian Folklife 2009, Cymru yw'r wlad sy'n cael sylw arbennig yng Ngŵyl Ryng-geltaidd Lorient eleni, gyda chefnogaeth gan Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru.

Yr ŵyl hon yn ne Llydaw yw un o'r dathliadau mwyaf o ddiwylliannau Celtaidd yn y byd, gyda thua 4,500 o berfformwyr o Gymru, Iwerddon, Llydaw, Cernyw, Ynys Manaw, Astwrias a Galisia, sy'n denu 700,000 o ymwelwyr dros gyfnod o 10 diwrnod.

Mae cynrychiolaeth o Gymru yn yr ŵyl eleni yn addo i fod yn fwy nag erioed, gyda phwyslais cryf ar gerddoriaeth draddodiadol.

Bydd y Cyngerdd Agoriadol swyddogol ar nos Sadwrn, sydd wedi'i noddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn ddatliad o gerddoriaeth draddodiadol, barddoniaeth a dawns o Gymru. Caiff y gynulleidfa ei harwain ar daith gyda gwledd o gerddoriaeth draddodiadol, hyd at gerddoriaeth werin â naws mwy cyfoes iddi, yn dilyn y datblygiadau yn ein celfyddydau traddodiadol, a gorffen gyda blas cyfoes. Bydd y cyngerdd yn cynnwys Clerorfa, y gerddorfa werin gyda 50 o gerddorion, ac hefyd perfformiadau gan amrywiaeth o grwpiau ac unigolion gwadd. Bydd y cyngerdd yn cynnwys telynnau teires, celtaidd a thrydanol, ffidlau, fliwtiau, pibgyrn a phibau.

Ar nos Lun, bydd y Grand Nuit du Pays de Galles (y noson fawr Cymru) yn cynnwys y delynores

enwog Catrin Finch yn ogystal â Clerorfa, y grŵp mawreddog Crasiant a Chôr Meibion Dowlais.

Perfformwyr traddodiadol eraill fydd i'w gweld yn ystod yr wythnos eleni yw Carreg Lafar, sy'n ymweld â'r ŵyl am y chweched tro, a Toreth, y deuawd ffidil a chordial aruchel. Hefyd, bydd 9Bach a Calan, dau grŵp o gerddorion ifanc talentog, yn perfformio yn Lorient am y tro cyntaf eleni.

Yn ogystal â'r grwpiau a drefnwyd gan yr ŵyl, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi arian sylweddol er mwyn gosod pafiliwn mawr a fydd yn ganolbwynt i Fiwyddyn Cymru. Bydd dau lwyfan yn y pafiliwn a bydd amrywiaeth o artistiaid o Gymru yn chwarae cerddoriaeth draddodiadol a chyfoes. Bydd cerddoriaeth draddodiadol y delyn i'w chlywed yn y pafiliwn, gyda'r cerddorion Robin Huw Bowen, Delyth Jenkins, Harriet Earis a Bethan Nia.

Bydd Yr Hwntws yn gwneud ymddangosiad prin ym mhafiliwn Cymru, ynghyd â Rag Foundation,



Delyth Jenkins



Ffynnon, The Gentle Good a llawer mwy, yn ogystal â pherfformwyr o brif raglen Blwyddyn Cymru. Pe na bai hynny'n ddigon, bydd band comisiwn yn cyfansoddi cerddoriaeth ddawns draddodiadol/techno er mwyn sicrhau mai'r pafiliwn yw'r lle i fod ganol nos!

Trefnwyd noson o Gerddoriaeth Sanctaidd ar gyfer canol yr wythnos, a fydd yn gyfle i gyflwyno Canu Plygain i gynulleidfa'r ŵyl ochr yn ochr ag emynau bywiog a fydd yn cael eu perfformio gan Gôr Meibion Dowlais.

Mae dydd Sadwrn olaf yr ŵyl wedi'i neilltuo i'r delyn, gyda'r delynores Meinir Heulyn yn cynnal dosbarth meistr a gweithdy, a bydd yn cloi'r diwrnod gyda chyngerdd gyda'r hwyr.

At ei gilydd, mae'r rhaglen ar gyfer Blwyddyn Cymru yn adlewyrchu bod ein cerddoriaeth draddodiadol yn iach ac yn tyfu, a dylem fod yn falch iawn ohoni. Ni fyddai'r lefel hon o weithgarwch yn bosibl heb gymorth ariannol Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ymdrechion difflino unigolion a sefydliadau allweddol, sy'n sicrhau bod ein cerddoriaeth draddodiadol yn datblygu ac yn symud ymlaen, gartref ac ar y llwyfan ryngwladol. I gloi, mae'n rhaid roi ddiolch arbennig i David Petersen (llun, tudalen 7) am ei waith fel Cynrychiolydd Cymru yn Lorient dros lawer o flynyddoedd.

Antwn Owen Hicks

Lorient: Year of Wales



Following on from the Wales showcase events at Celtic Connections in 2007, and running up to Wales at the Smithsonian Folklife Festival in 2009, Wales is again the featured nation in the Festival Interceltique Lorient this year with support from the Welsh Assembly Government, Arts Council of Wales and Wales Arts International.

The festival in southern Brittany is one of the largest celebrations of Celtic cultures in the world, with some 4,500 performers from Wales, Ireland, Brittany, Cornwall, Isle of Man, Asturias and Galicia, and 700,000 spectators over 10 days.

The Welsh presence at this year's festival promises to be bigger than ever before, with a strong emphasis on traditional music.

The official opening Gala Concert on the Saturday night, funded by the Welsh Assembly Government, will be a celebration of traditional music, poetry and dance in Wales. The evening will take the audience on a journey from the very traditional, through to a more contemporary take on traditional and folk music, following the developments of our traditional arts and finishing with a contemporary flavour. The concert will feature Clerorfa, the fifty strong folk orchestra, as well as guest performances by a variety of groups and individuals. The concert will include triple, celtic and electric harps, fiddles, flutes, pibgryn and pipes.

The Grand Nuit du Pays de Galles (Wales' big night) on the Monday will feature harpist Catrin Finch as well as Clerorfa, super-group Crasdant and Dowlais Male Voice Choir.

Other traditional performers during the week-long festival this year are Carreg Lafar on their sixth visit to the festival and the sublime fiddle and accordion duo Toreth. 9Bach and Calan, two groups of talented young musicians, will also be making their debut in Lorient this year.



As well as the groups booked by the festival, the Welsh Assembly Government has provided substantial funding for a large pavilion to be the focal point of the Year of Wales. The pavilion will feature two stages and an array of Welsh artists, both traditional and more contemporary. Wales's great harp tradition will feature in the pavilion with Robin Huw Bowen, Delyth Jenkins, Harriet Earis and Bethan Nia.

Making a rare appearance in the Wales pavilion is the legendary Yr Hwntws, along with Rag Foundation, Ffynnon, The Gentle Good, and many more, as well as performers from the main Year of Wales programme. If that wasn't enough, a house band has been specially commissioned to create new Welsh trad/techno fusion dance music to ensure that the pavilion is the place to be at midnight!

An evening concert of Sacred Music from Wales is programmed for the middle of the week providing an

opportunity to introduce Canu Plygain to the festival audience alongside rousing hymns performed by Dowlais Male Voice Choir.

The final Saturday of the festival is dedicated to the harp with Meirir Heulyn providing a Masterclass and workshop, and rounding of the day with a concert in the evening.

All in all, the programme of activity for the Year of Wales demonstrates a healthy and growing traditional music scene, and one to be truly proud of. This level of activity would not be possible without the financial support of the Welsh Assembly Government and the tireless efforts of key individuals and organisations, ensuring that our traditional music is developing and moving forward, both at home and on the international stage.



Finally, special thanks must go to David Petersen (above) for his work as the Wales Representative in Lorient over many years.

Antwn Owen Hicks

Presenoldeb Cymreig yn 'Showcase Scotland'

Eleni, ymunodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a trac a'i gilydd er mwyn mynychu Showcase Scotland/Celtic Connections yn Glasgow. Cyfarwyddyd trac, Siân Thomas, ynghyd ag Eluned Haf o GRhC a'r aml-hetiog Geoff Cripps (Allan Yn Y Fan/ Recordiau Steam Pie / Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf) oedd yn gwarchod y stondin yn y ffair fasnach a ddenodd ddi-ddordeb yn y nifer o berfformwyr Cymreig a oedd wedi darparu deunydd hyrwyddo.

Ffurfiwyd gysylltiadau defnyddiol gyda gwyliau a hyrwyddwyr yng Ngogledd America, Ewrop a'r DU, a'r gobaith yw y bydd y rhain yn cyfrannu at ddatblygiad a thwf y byd cerddoriaeth draddodiadol Gymreig.

Enillodd y delynores/gantores Bethan Nia (llun, ar y dde) un o'r gwobrau 'Danny' ar Lwyfan Agored Danny Kyle, camp a fydd yn sicrhau lle iddi ar lwyfan Gŵyl Celtic Connections y flwyddyn nesaf.

Cyhoeddwyd – yn cydganu'r un gân

"Dylwn ni fod wedi gwneud hyn o'r blaen", oedd un o'r sylwadau a glywyd pan ddaeth cyhoeddwyd cerddoriaeth werin at eu gilydd mewn cyfarfod arloesol ym mis Chwefror. Wedi'i grybwyll gan trac a'i gynnal yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, roedd y cyfarfod yn gyfle i gyhoeddwyd o'r sector gyhoeddus ac o'r sector breifat ddod at eu gilydd er mwyn cymharu, rhannu a chynllunio at y dyfodol.

Mae cynlluniau'r dyfodol yn cynnwys atgynhyrchiadau o rai o gasgliadau mawr hanesyddol Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, gwerslyfrau alawon traddodiadol offerynnol o Gwmni Cyhoeddi Gwynn ac yn nes ymlaen eleni, mynediad ar-lein am ddim i 'Ganeuon Llafar Gwlad 1' (sydd allan o brint) Amgueddfa Werin Cymru. (Hwre!!)

Tystiodd Cwmni Cyhoeddi Alaw i'r gofyn mawr am gerddoriaeth Gymreig o'r farchnad gerddoriaeth ryngwladol – rhywbeth i feddwl amdano wrth ystyried Blwyddyn Cymru yn Lorient 2008, a Blwyddyn Cymru y Smithsonian yn 2009.

Cafwyd hefyd drafodaeth parthed â'r sialens fawr o'r cyfryngau digidol, a'r angen i gyhoeddwyd print, cynhyrchwyr CD/digidol, darlledwyr a hyrwyddwyr gigiau i ddechrau feddwl yn nhermau cyd-weithio, a chynnig y 'pecyn cyflawn'.

"Rhaid i ni gyfarfod eto", oedd y teimlad wrth i ni gloi'r cyfarfod ac os taw 'mewn undod mae nerth', mae'n fenter sy'n werth ei datblygu.

Bethan Nia



Tudalen trac ar MySpace

Mae gan trac bresenoldeb newydd ar rwydwaith MySpace. I'r rhai ohonoch sy' ddim yn gyfarwydd â MySpace, ffordd yw hyn o ddod â'n gwaith, a cherddoriaeth Cymru, at sylw cerdd-garwyr ar draws y byd.

Wrth fynd i www.myspace.com/traccymru gallwch glywed ystod o draciau gan rai o berfformwyr gwerin a thraddodiadol mwya' blaenllaw Cymru, a fydd y dewis yn amrywio'n gyson. Mae 'na sioe-sleidiau o luniau o amrywiol brosiectau trac ledled Cymru, a 'dyn ni wedi casglu amrywiaeth ddiddorol o 'Ffrindiau', gyda chysylltiad o'i tudalennau nhw at ein tudalennau ni. Ein nod yw defnyddio'r safle i godi proffil cerddoriaeth werin a thraddodiadol Gymreig wrth estyn allan i unigolion, clybiau gwerin a gwyliau ledled y DU a thu hwnt.

Cawson ni gyfleoedd rhwydweithio gwyd adeg Dydd Gŵyl Dewi, diolch i MySpace. Profodd 'Diwrnod Cerddoriaeth Gymreig' gyntaf sianel we-gerddoriaeth *IRFT Celtic Radio*, sydd wedi ei lleoli yn UDA, i fod cymaint o lwyddiant fel bod yr orsaf wedi dechrau chwarae awr o gerddoriaeth draddodiadol o Gymru yn ddyddiol, saith diwrnod yr wythnos, yn ogystal â chynnwys artistiaid megis Ffynnon a Celtish yn ei rhaglenni arferol.

Os oes gennych dudalen MySpace, gwnewch gais i fod yn un o'n Ffrindiau!

Welsh presence at Showcase Scotland

Wales Arts International and trac joined forces this year at Showcase Scotland/Celtic Connections in Glasgow. trac Director, Siân Thomas, together with WAI's Eluned Haf and multi-hatted Geoff Cripps (Allan Yn Y Fan/Steam Pie Records/Rhondda Cynon Taf BC) staffed the trade fair stand which attracted interest in a number of Welsh performers who had provided promotional material.

Useful contacts were made with festivals and promoters in North America, Europe and the UK, which we hope will contribute to encouraging the Welsh traditional music scene to thrive and grow.

Harpist and singer Bethan Nia (pictured left) carried off a coveted 'Danny' award from the Danny Kyle Open Stage, which assures her of a place on the Celtic Connections Festival stage next year.

Publishers – on the same page

"We should have done this before now," was one comment on February's groundbreaking get-together for publishers of traditional music. Initiated by by trac and hosted by the National Library of Wales, the meeting brought together public and private sector publishers to compare, share and plan for the future.

Future plans include facsimiles of some great historical collections by Welsh Folk Song Society; trad tune instrumental textbooks and compilations of cerdd dant tunes from Gwynn Publishing; and, later this year, free on-line access to the Museum of Welsh History's out-of-print "Caneuon Llafar Gwlad I / Songs from the Oral Tradition I". (Hurrah!)

Alaw Publishing testified to the serious appetite for Welsh music at international music markets – food for thought with Lorient's Year of Wales in 2008, and the Smithsonian Year of Wales in 2009.

Also discussed was the looming challenge of digital media, and the need for print publishers, CD / digital producers, broadcasters and gig promoters to start thinking in terms of joint ventures, offering the 'full package'.

"We must do this again," closed the meeting and, if unity means strength, it's an initiative worth developing.



Eluned Haf and Geoff Cripps behind the stand with international visitors at Showcase Scotland

trac MySpace page

trac now has a presence in the MySpace network. For those who haven't explored MySpace, this is a way of having our work, and the music of Wales, noticed by music-lovers all over the world.

At www.myspace.com/traccymru you can hear a selection of tracks by some of Wales' leading folk and traditional performers, which will change regularly. There is a slideshow of photographs from trac's various grass-roots projects across Wales and we've gathered a fine collection of 'Friends' whose pages are linked to ours. We aim to use the site as a way of raising the profile of traditional and folk music from Wales by reaching out to individuals, folk clubs and festivals throughout the UK and beyond.

MySpace gave us some fine networking opportunities around St. David's Day. US-based web music station *IRFT Celtic Radio* had such a success with its first 'Day of Welsh Music' that it's started a regular programme playing an hour of traditional music from Wales every day, seven days a week, as well as featuring artists such as Ffynnon and Celtish on their regular programmes.

If you have a myspace page, send us a Friend request!

Yr hyn sydd ei angen ar gerddoriaeth draddodiadol yng Nghymru - eich ymatebion

Diolch i holl ddarllenwyr Ontrac a'r enwyddion a wnaeth ymateb i'n cais am beth oedd ei angen os 'rydym am i gerddoriaeth werin ffynnu.

Roedd eich awgrymiadau'n niferus ac amrywiol, a daethant o bob cwr o'r byd gwerin: cerddorion, hyrwyddwyr, addysgwyr a selogion. Cafodd bob awgrym ei ystyried gan Fwrdd trac yn ystod ei gyfarfod diwethaf.

Dyma rai o'ch syniadau y mae trac eisoes wrthi'n datblygu:

- gweithio i sefydlu ac i gefnogi mentrau lleol sy'n ymwneud â cherddoriaeth draddodiadol;
- dod o hyd i Aelodau Cynulliad a fydd yn fodlon pledio'n hachos.
- cadw'n fyw yr ymwybyddiaeth bod angen i Gyngor Celfyddydau Cymru gyflogi swyddog penodol, fel y cytunwyd yng nghynhadledd celfyddydau traddodiadol CCC.
- cyfrannu at y drafodaeth sy'n cael ei atgyfodi gan Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ynglŷn â chwrs cerddoriaeth draddodiadol.

Galwodd lawer ohonoch am fwy o gyfleoedd dysgu – cerddoriaeth werin yn yr ysgolion, mwy o sesiynau, sesiynau o dan hyfforddiant, gweithdai rhannu caneuon, CD o ganeuon Cymraeg ar gyfer y di-Gymraeg, llyfr/DVD yn Saesneg i drafod cerddoriaeth werin Gymraeg, dosbarthiadau ysgrifennu caneuon, cyngor ar archwilio deunydd ... cymaint o syniadau fel y bod gennym gynlluniau am raglen ddysgu gyflawn at y dyfodol ar gyfer pob oedran.

Elfen arall oedd gweithgareddau lleol – twmpathau a cheilidhs cymunedol, gwyliau lleol a rhyw ffordd o godi ymwybyddiaeth o gerddoriaeth werin yn y gymuned ehangach. Bydd trac yn gwneud popeth y gallwn i helpu gyda chyhoeddusrwydd a lledu'r gair am ddiwyddiadau cerddoriaeth draddodiadol a gwerin; rhaid i gymunedau drefnu'r digwyddiadau eu hunain, er mwyn iddynt wreiddio'n ddiogel yn y gymuned.

Roedd ochr fasnachol ac ochr berfformio cerddoriaeth werin yn poeni llawer ohonoch chi – diffyg asiantaeth fasnachol i hyrwyddo cerddorion traddodiadol ar lefel genedlaethol a ryngwladol, y dymuniad am fwy o leoliadau perfformio, mwy o gigiau, mwy o hyrwyddo. Roedd ambell un yn codi'r angen am gymorth i godi safonau crefft llwyfan, cyflwyno a chyhoeddusrwydd os 'rydym am i gerddoriaeth werin o Gymru gael ei hystyried o ddifri ym marchnad y DU neu farchnad fyd-eang. Mewn ymateb i hyn, mae trac yn ymchwilio i ffyrdd o helpu gyda 'datblygiad proffesiynol' mewn cydweithrediad â Sefydliad Cerddoriaeth Cymru ac eraill.

Roedd nifer ac ystod eich syniadau, meddyliau ac awgrymiadau yn drawiadol, a bydd trac yn gwneud ei orau i ymateb i'r anghenion 'rydych wedi eu clustnodi.

Y Llydawyr yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi



Bagad Penhars ar ddechrau'r Orymdaith

Am y tro cyntaf erioed – nid un, ond dau 'fagad' yn dod i Gymru ar gyfer yr un achlysur. 5ed Gorymdaith Genedlaethol Gŵyl Dewi ; 8,000 o bobl, y fwyaf, y fwyaf lliwgar, a'r fwyaf llawen hyd yn hyn, yn mynd ar ei hynt o'r Amgueddfa Genedlaethol drwy ganol y Brifddinas i orffen o flaen y Senedd ym Mae Caerdydd.

Am flynyddau lawer 'roedd un o drefnwyr yr Orymdaith, Gareth Westacott, wedi breuddwydio am ddod â bagad

draw ar gyfer yr Orymdaith. Eleni, gyda chymorth ariannol gan Gyngor y Celfyddydau, fe wireddwyd y freuddwyd honno pan deithiodd un o'r goreuon, 'Bagad Penhars', i Gaerdydd o'u cartref yn Kemper, ynghyd ag wyth dawnswr o Eliant. Yna, prin ddwy awr cyn dechrau'r Orymdaith, dyma 'Bagad Naoned' yn cyrraedd gyda 28 o ddawnsyr 'Treteau et Terroir' o Nantes!

Y diwrnod cyn yr Orymdaith fe berfformiodd Bagad Penhars i 300 o ddisgyblion Ysgol Rhydfelen, ger Pontypridd. Cyn iddyn nhw chwarae fe esboniodd Gareth i'r ieuencid fel y bu i lawer o Gymry ymfudo, ryw 1400 o flynyddau yn ôl (yn ystod oes Dewi Sant ei hun) i'r rhan yna o'r byd a adnabyddir heddiw fel Llydaw, ac fel y bu iddo gael ei eni yno (chwedl y Llydawyr beth bynnag!), a bod Non, ei fam, wedi ei chladdu yno. Cafwyd trafodaeth wedyn ynglŷn â'r cysylltiadau eraill rhwng Cymru a Llydaw, yn enwedig y tebygrwydd rhwng y ddwy iaith. Pan ddechreuodd un o'r dawnswyr ganu Anthem Genedlaethol Llydaw fe gafodd y disgyblion eu syfrdanu i ganfod taw'r un oedd yr alaw i'n Hanthem ni!

Ac rhag ofn fod unrhyw un ohonynt wedi cael ei ysbrydoli i ymuno â bagad, 'roedd Antwn Owen Hicks a Gafin Morgan o 'Bagad Bro Morgannwg', ein bagad Cymreig ni ein hunain, wrth law i'w hysbysu nad oedd rhaid iddynt symud i Lydaw i fyw!

'What traditional music in Wales needs' - your responses

Thanks to all our Ontrac and e-news readers who sent in their thoughts as to what's needed for traditional music in Wales to flourish.

The suggestions were many and varied, and came from all aspects of folk involvement: musicians, promoters, educators and enthusiasts. Each suggestion was considered by trac's Board at its last meeting.

Some of your ideas trac is already involved with:

- working to establish and support local traditional music enterprises;
- finding "champions" amongst Assembly Members
- keeping afloat the need for a dedicated officer in the Arts Council of Wales as was agreed at the ACW trad arts conference
- contributing to the debate being revived by the Royal College of Music and Drama for a traditional music course

Many called for more learning opportunities - folk music in schools, more sessions, taught sessions, song-sharing workshops, a CD of Welsh songs for non-Welsh-speakers, a book/dvd in English about Welsh traditional music, songwriting classes, advice on researching material ... so many ideas that we have plans for a whole programme of learning for all ages in the future.

Local activities were another strand - community ceilidhs and twmpathau, local festivals and some kind of drive to increase awareness of folk in the wider community. We at trac will do all we can to help publicise and spread the word of folk and traditional music events; the organisation of events needs to come from communities themselves if they are to have healthy roots.

The commercial and performance side of folk music concerned many of you - the lack of a commercial agency to promote traditional musicians nationally and internationally, a desire for more venues, more gigs, more promotion. Some of you voiced a need in Wales for help with raising standards in stagecraft, presentation and publicity if we're to have traditional music from Wales taken seriously in a UK or global market. In response to this, trac is looking into ways of helping with 'professional development' in association with the Welsh Music Foundation and others.

The number and variety of your thoughts, ideas, opinions and suggestions were impressive, and trac will do its level best to respond to the needs that you've identified.

Bretons celebrate St David's Day

It had never happened before – not one, but two Breton 'bagadou' coming to Wales for the same occasion. The 5th National St David's Day Parade; 8,000 strong, the biggest, brightest, and most festive yet, wending its way from the National Museum through the centre of the capital city to finish in front of the Senedd in Cardiff Bay.

For many years it had been Parade organiser Gareth Westacott's dream to bring a bagad over for the Parade. With financial support from the Arts Council of Wales that

dream this year became a reality when 'Bagad Penhars', one of Brittany's finest, arrived in Cardiff from their home town of Kemper (Quimper), accompanied by eight dancers from Eliant. Then, just two hours before the start of the Parade, along comes 'Bagad Naoned' with the 28 dancers of 'Treteau et Terroir' from Nantes.

The day before the Parade, Bagad Penhars performed for 300 pupils of Ysgol Rhydfelen near Pontypridd. Before they played, Gareth explained to the young people that 1400 years ago, in St David's own lifetime, many Welsh people had emigrated to that part of the world we now call Brittany, and that Saint David himself had been born there (according to Breton tradition anyway), and his mother, Non, buried there. The students went on to explore the other connections between Wales and Brittany, and in particular the similarity between the two languages. When one of the dancers began singing the Breton National Anthem ('Bro Goz Ma Zadou'), the pupils were astonished to hear that the tune was the same as that of our own!

And in case any of the students felt inspired to join a bagad, Antwn Owen-Hicks and Gafin Morgan of Wales' very own 'Bagad Bro Morgannwg' were on hand to let them know that they don't have to move to Brittany to do so!



Bagad Penhars parade down St. Mary Street, Cardiff

Photo: Chris Jones

2008 : blwyddyn fawr i Clera

Pedwar cyngerdd pwysig i'r 'gerddorfa' werin newydd

Daeth dros 50 o gerddorion gwerin ynghyd ger Aberystwyth Dydd Sadwrn, Ebrill 12, i ymarfer ar gyfer pedwar cyngerdd pwysig yng Nghymru ac ar y cyfandir yn hwyrach eleni - mae llun ar dudalen 16.

Mae'r pedwar cyngerdd yn golygu fod y 'gerddorfa' werin newydd (gydag aelodau o bob rhan o Gymru bellach) yn wynebu rhaglen brysur o ymarfer a pherfformio dros y chwe mis nesaf. Mae'n golygu hefyd fod cerddoriaeth draddodiadol Cymru yn debyg o wneud mwy o argraff nag erioed yn 2008.

Un o'r cyngherddau yw cyngerdd Gala agoriadol Gŵyl Geltaidd Lorient, Llydaw – yr wyl fwyaf o'i math yn y byd bellach. Fe fydd ail gyngerdd yn Lorient ddeuddydd yn ddiweddarach: *Le Grand Nuit du Pays de Galles*. Bythefnos cyn y ddau gyngerdd yn Llydaw bydd yr aelodau'n ymddangos ar brif lwyfan Sesiwn Fawr, Dolgellau, ac yna, ym mis Medi, yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy fel rhan o Wyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru.

Fe ffurfiwyd y Glerorfa yn 2006 ar gyfer un achlysur arbennig – 10fed penblwydd Clera, Cymdeithas Offerynnau Traddodiadol Cymru, yn y Galeri, Caernarfon. Cafodd y cyngerdd hwnnw ymateb anarferol o frwd.

Ers hynny mae aelodaeth y Glerorfa wedi codi i 55 a bellach yn cynnwys cerddorion o bob rhan o Gymru, y mwyafrif llethol ohonynt yn amaturiaid. Mae bron i draean o'r aelodau yn bobl ifanc o dan 21 oed; mae cymaint â 10 o unedau teuluol yn cael eu cynrychioli (tad/merch, chwirydd, gŵr a gwraig, ac ati). Pentref bychan Llangwnadl ym Mhen Llŷn sy'n cael y wobwr am y gyfran fwyaf o'i boblogaeth yn aelodau – cyfanswm o bump! Mae swyddi'r aelodau yn cynnwys gyrrwr tacsï, saer coed, dylunydd, swyddog cadwraeth, arlunydd adnabyddus, gweithiwr atomfa, peirianydd sain, arbenigwr therapi amgen, gofalwr plant dan anfantais, yn ogystal â nifer o athrawon, myfyrwyr (dau yn teithio i'r ymarferion o Gaergrawnt) a disgyblion ysgol.

Caiff y Glerorfa ei harwain gan ddau gerddor profiadol a chwaraeodd ran amlwg yn yr adfywiad diweddar ym maes cerddoriaeth werin Cymru, sef Stephen Rees a Robin Huw Bowen. Yn ôl Stephen mae'r Glerorfa yn "ddatblygiad hynod bwysig yng ngherddoriaeth draddodiadol Cymru: mae'n arwydd clir bod ein traddodiadau offerynnol yn fyw, yn iach, ac yn ffynnu yn yr unfed ganrif ar hugain."

Arfon Gwilym

Rhagoriaeth mewn cerddoriaeth werin?

Sioned Webb, Cyfarwydd Artistig, Canolfan Gerdd Wiliam Mathias, yn sôn am y dyfodol

Canolfan Gerdd William Mathias, Galeri, Caernarfon. Wrth ystyried yr enw sydd arni, efallai fod Canolfan Gerdd fel hon yn ymddangos yn bell oddi wrth gerddoriaeth a thraddodiadau gwerin Cymru. Wedi'r cyfan, darparu profiadau mewn cerddoriaeth *glasurol* yw prif amcan y Ganolfan i raddau helaeth. Ar y llaw arall, ni ellir diystyru fod William Mathias ei hun, pan oedd yn fyw, yn gwbl ymwybodol o'r traddodiad Cymreig er mai nid dyna oedd ei brif gynnyrch. Clywir rhythmau ein hiaith lafar ac iaith foddawl Gymreig yn dirwyn fel edafedd arian drwy nifer o'i weithau.

Canolfan sydd yn anelu at ragoriaeth yw CGWM – dyna oedd ac yw ei bwriad. Dros y blynyddoedd, mae'r Ganolfan wedi medru aeddfedu digon i gwmpasu'r holl *genres* cerddorol, o'r clasurol i jazz, roc a cherddoriaeth draddodiadol. Cynhaliwyd cyrsiau a nosweithau gwerin gyda thiworiaid fel Stephen Rees a Robin

Huw Bowen, y Dr. Meredydd Evans a Phyllis Kinney. Cafodd y delyn deires ei gorsedd haeddiannol yn ein Gŵyl Delynau Ryngwladol. Mae Elinor Bennett yn hyfforddi myfyrwyr o Ysgol Gerdd Prifysgol Bangor ar yr offeryn ac mae gan Neil Browning ddsbarthiadau acordion yno. Cynhaliwyd gweithdy canu Plygain i dros hanner cant o gantorion a chyrsgosod cerdd dant gan Glesni Jones ac Arfon Gwilym. Hyn i gyd oherwydd gweledigaeth y Gyfarwyddwraig gyntaf, Elinor Bennett; hithau wedi tyfu i fyny yn nhraddodiadau cyfoethog Maldwyn a Meirionnydd ac yn gweld eu gwerth.

Ond credaf fod lle i ddatblygu hyfforddiant fwyfwy i'r unigolyn sydd am arbenigo ar gerddoriaeth werin. Dydw i ddim yn honni am funud nad yw'r person heb hyfforddiant yn israddol. Wedi'r cwbl, o'r werin ddi-hyfforddiant y tarddodd cerddoriaeth draddodiadol, a pheidied neb ag



Sioned Webb

anhofio'u gorffennol. Ond nid oes chwaith ddim o'i le mewn cerddoriaeth werin yn cael ei pherfformio'n greffus, gan anelu at y safonau uchaf un. Drwy gymorth tiwtoriaid profiadol a medrus sydd a'u calonau yn curo yn y maes hwn, hyderaf y bydd rhagoriaeth yn y maes traddodiadol yn cyfrif hefyd yng Nghanolfan Gerdd William Mathias.

Am fwy o fanylion, ewch i'r wefan www.canolfangerddwilliammathias.com

2008 : the busiest year yet for Clera

Four major concerts for Wales's first Folk Ensemble

Over 50 Welsh folk musicians gathered near Aberystwyth on Saturday, April 12, to rehearse for a series of four concerts in Wales and overseas later this year - see picture on our back cover.

The four concerts mean that the newly formed all-Wales folk 'orchestra' faces a hectic schedule of rehearsing and performing over the next six months. It also means that Welsh traditional music is likely to make a greater impact than ever in 2008.

One of the concerts is the official Gala opening of the Celtic Festival in Lorient, Brittany – now the biggest festival of its kind in the world. There will be a second concert in Lorient two days later: "Le Grand Nuit du Pays de Galles". Two weeks before the Breton concerts, members will appear on the main stage of Sesiwn Fawr, Dolgellau, and in September, in St. Asaph Cathedral as part of the North Wales International Music Festival.

The orchestra was formed in 2006 for a "one-off" concert to celebrate the 10th anniversary of Clera, the Welsh

Traditional Instrument Society, at the Galeri, Caernarfon and received an exceptionally enthusiastic response.

Since then the membership of the ensemble has increased to 55 and now includes musicians from all part of Wales, the vast majority of whom are amateurs. Young people under the age of 21 account for almost 30 per cent of the total; there are no less than 10 family groups represented (father and daughter, two sisters, husband and wife etc.). The small village of Llangwnadl on the Llyn Peninsula gets the prize for the highest proportion percentage of its population taking part – five in all!

The ensemble is led by two prominent musicians who have played a leading role in the recent revival of traditional music in Wales, Stephen Rees and Robin Huw Bowen. According to Stephen, "the *Clerorfa* is an important development in the Welsh traditional music scene: it shows that our instrumental traditions are alive and well and thriving in the 21st century."

Arfon Gwilym

Excellence in Folk Music?

Sioned Webb, new artistic Director at the William Mathias Music Centre, talks about the future

Canolfan Gerdd William Mathias, Galeri, Caernarfon. Considering the title, perhaps a Music Centre such as this seems far away from the folk music and traditions of Wales. After all, the main objective of the Canolfan is to provide experiences in *classical* music to a large extent. On the other hand, one cannot disregard the fact that the composer William Mathias himself, when alive, was thoroughly familiar with the Welsh tradition, albeit not his main compositional output. We hear the rhythm of our speech patterns and Welsh modality running like a silver thread through many of his works.

Canolfan Gerdd William Mathias strives for excellence. That was and is our aim. Over the years, the Canolfan has sufficiently matured to encompass all musical *genres*, from classical to jazz, rock and traditional music. Courses and traditional evenings have been very success-

fully held with tutors such as Stephen Rees and Robin Huw Bowen, Dr Meredydd Evans and Phyllis Kinney. The triple harp was given her rightful place in our International Harp Festival. Elinor Bennett teaches the instrument to students from the Music School, Bangor University and Neil Browning is an accordion tutor there. A Plygain workshop was held there for over fifty participants, also *cerdd dant* courses by Glesni Jones and Arfon Gwilym. All this due to the vision of the first Director, Elinor Bennett, who was herself brought up in the rich traditions of the counties of Maldwyn and Meirionnydd and fully aware of their value.

But I believe that there's even more work to be done providing tuition for the individual who wants to specialise in playing folk music. Not that I diminish in any way the musician who has had no tuition. After all, it



Sioned Webb on the Eisteddfod field

was from the untutored population that we inherited our folk traditions, and no one should disregard that heritage. But there is nothing wrong with folk music being played skilfully and to aim for the highest standards. Together with the right tutors who have similar interests at heart, I hope that excellence within the folk tradition will also prevail in Canolfan Gerdd William Mathias.

For more information see the website www.canolfangerddwilliammathias.com

hoffwn i chi wybod

Cael eich clwyd

Pan ofynnwyd i gefnogwyr trac ac i ddarllenwyr Ontrac pa beth oedd ei angen ar gerddoriaeth werin Cymru, roedd llawer o'ch ymatebion yn ymwneud â'r angen am help i ddodi mwy o gerddoriaeth werin/draddodiadol 'allan yn y fan', fel petai. Ond gan nad oes yr un asiant masnachol i gael sy'n hyrwyddo cerddoriaeth werin yn unig yma

yng Nghymru, fel arfer mae gofyn i'r perfformwyr a'r bandiau fynd ati i wneud y gwaith caib a rhaw hyn dros eu hunain. Mae hyn yn golygu llawer o waith ac ymdrech, ond os 'dych chi am fynd â'ch hoff gerddoriaeth o'r sesiwn a'r 'stafell ffrynt, ac allan i'r byd mawr, dyma grynodedeb o'r ffynonellau cymorth sydd eisoes ar gael.

Dod o hyd i leoliadau chwarae

Mae manylion cyswllt y rhan fwyaf o leoliadau chwarae ar gael os 'dych chi'n gwybod ble i edrych.

Mae **Canolfannau Celf** a **Theatrau** yn cael eu rhestru ar wefan Creu Cymru www.creucymru.co.uk

Gallwch ddod o hyd i fanylion am **leoliadau Cymunedol** megis neuaddau pentre ar wefan Noson Allan www.nightout.org.uk. Cynllun Cyngor Celfyddydau Cymru i hybu mwy o berfformiadau celf byw yn ein cymunedau yw Noson Allan, ac y mae nifer o berfformwyr traddodiadol/ gwerin eisoes wedi cofrestru gyda nhw.

Mae **tafarndai a chlybiau sy'n cynnig cerddoriaeth** wedi eu cynnwys yng nghyfeirlyfr ar-lein Sefydliad Cerddoriaeth Cymru. Ewch i www.welshmusicfoundation.com

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am **Wyliu** ledled y DU yn ddi-drafferth os ydyn nhw'n aelod o'r *Association of Festival Organisers*. Cewch restr o'r rhain ar y tudalennau aelodaeth yn www.folkarts-england.org

Mudiadau

Mae aelodaeth o'r Musicians' Union yn sicrhau mynediad at gymorth cyfreithiol, yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ac yswiriant offer, cyngor contract, gwasanaethau i athrawon, sicrhau hawliau a llawer mwy. Mae ganddynt swyddfa ranbarthol yng Ngaerdydd, adran ar gyfer Cymru a De-Orllewin Lloegr ac adran werin (DU gyfan). Cewch fwy o wybodaeth yn www.musiciansunion.org.uk

Mudiad sy'n cael ei redeg gan berfformwyr er budd perfformwyr yw **FolkWISE**, er mwyn cynnal ac annog perfformwyr gwerin proffesiynol o Gymru, yr Iwerddon, yr Alban a Lloegr. Maen nhw'n cynhyrchu CDau sampl, yn trefnu arddangosfeydd, yn cynnig cyngor ac yn hyrwyddo datblygiad broffesiynol – ewch i www.folkwise.org

Mae **Sefydliad Cerddoriaeth Cymru** (Welsh Music Foundation) yn disgrifio'i hun fel 'y man cychwyn ar gyfer unigolion, busnesau bach a dechreuwyr sydd angen gwybodaeth am ddiwydiant cerddoriaeth Cymru'. Mae'n gweithio â'r ochr fusnes y byd cerdd, a bydd perfformwyr am wneud defnydd o'i Gyfeirlyfr ar-lein: 1700 cofnod mewn 65 categori. Mae SCC hefyd yn cynnal diwrnodau hyfforddiant/rhwydweithio a digwyddiadau i 'randdeiliaid'. Archwiliwch beth sy'n cael ei gynnig yn www.welshmusicfoundation.com

Cyngor marchnata

Mae gan wefan **FolkWISE** nifer o 'ffeiliau gwybodaeth' defnyddiol gan yr asiant/perfformiwr Jacey Bedford a'r perfformiwr Tom Bliss. Mae'r rhain yn trafod '**Ffeindio Gigiau**', '**Marchnata**' a '**Hyrwyddo Cerddoriaeth Werin**' – awgrymiadau a chyfarwyddiadau ar sut i drefnu Clwb Gwerin neu leoliad acwstig'. Mae angen diweddarau'r taflenni gwybodaeth er mwyn cynnwys ffynonellau marchnata newydd fel MySpace, ond fel arall mae na lawer iawn o wybodaeth defnyddiol ar gael oddiwrth pobl sy'n meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o'r busnes.

Mae gwefan Jacey Bedford yn cynnwys 'ffeiliau cymorth' ar bynciau fel '**Pam nad oes angen asiant arna i**' a '**Beth yw cytundeb canrannol?**' Cewch ddarllen y rhain yn www.jacey-bedford.com

Cyhoeddwyd nifer fawr o ganllawiau i bopeth, o hunan-gyhoeddi CDau, cytundebau, dosrannu, hyd at sefydlu rhestr archebu drwy'r post ayyb., yn y cylchgrawn ardderchog **Sound Nation** (sydd erbyn hyn, yn anffodus, wedi dod i ben) o eiddo WMF/SCC. Da o beth yw bod y canllawiau hyn dal ar gael ar wefan SCC, ac er eu bod wedi eu hanelu'n bennaf at ddarllenwyr o gefndir roc/pop, maent yn dal yn berthnasol i gerddorion gwerin neu draddodiadol sydd am hyrwyddo eu cerddoriaeth.

Hunan farchnata

Os oes gennych yr arbenigedd neu'r arian i'w greu ac i'w ddiweddarau, mae angen **gwefan** arnoch chi. Fel arall, mae MySpace am ddim, yn hawdd i'w gynnal, ac mae'n cynnig manteision nad oes gan wefannau annibynnol. Ewch i www.myspace.com i greu eich tudalen eich hunan a thra eich bod wrthi, crewch broffil ar bbc.co.uk/wales/music a/neu dudalen ar Facebook neu Perthyn.

Rhestrwch eich digwyddiadau cerddorol nid yn unig ar e-newyddion trac ond ar wefannau sy'n arbenigo mewn rhestru digwyddiadau gwerin fel www.folkwales.org.uk, www.casbar.co.uk, a welshfolk@yahoo.co.uk

Mae na wefannau ehangach eu cynnwys yn bodoli hefyd, er enghraifft, www.ents24.co.uk, www.themusicwellhome.co.uk, www.folking.com, www.nationalgigguide.com, ac yng Nghymru mae www.whatsonwales.co.uk a safwe gerddoriaeth BBC Cymru yn bbc.co.uk/wales/music sy'n rhestru gigs.

Getting heard

When we asked trac supporters and Ontrac readers what traditional music in Wales needed, one strand of your responses was concerned with help to get more folk/traditional music heard 'out there'.

With no dedicated commercial agent specialising in folk music in Wales, it's

usually down to the performers and bands themselves to do the hard graft. There's a lot of work and effort involved, but if you want to take the music you love beyond the session and the front room and out into a wider arena, here's a round-up of the sources of help which are already out there.

Finding venues

Contact details for most kinds of venues are available if you know where to look.

Arts Centres and **Theatres** are listed on Creu Cymru's website www.creucymru.co.uk

Community venues like Village Halls you can find on the Night Out website www.nightout.org.uk Night Out is the Arts Council of Wales' scheme for getting more live arts performances into communities, and many traditional/folk performers are already registered with them.

Music pubs and clubs are in the online directory of the WMF at www.welshmusicfoundation.com

Festivals throughout the UK can be found easily if they're members of the Association of Festival Organisers. You'll find them listed on the members pages at www.folkarts-england.org

Organisations

Musicians' Union membership gives you access to legal assistance, Public Liability and equipment insurances, contract advice, teachers' services, rights protection and much more. They have a regional office in Cardiff, a Wales & SouthWest section and a UK-wide Folk section. You'll find more details at www.musiciansunion.org.uk

FolkWISE is an organisation run by performers for the benefit of performers, to support and encourage professional folk performers from Wales, Ireland, Scotland and England (hence FolkWISE). They produce sampler CDs, organise showcases, give advice, and encourage professional development - see www.folkwise.org for details

The **Welsh Music Foundation** describes itself as 'the first port of call for individuals, small businesses and start-ups who need information on the music industry in Wales'. It works with the business side of music, and performers will want to make use of its online Directory: 1700 listings in 65 categories. WMF also runs training/networking days and 'stakeholder' events. Explore what they have to offer at www.welshmusicfoundation.com

Advice on marketing

The **FolkWISE** website has some excellent 'info files' by agent and performer Jacey Bedford and performer Tom Bliss. They cover '**Getting Gigs**', '**Marketing**' and '**Promoting Folk Music** - some hints and tips on running a Folk Club or acoustic venue'.

The factsheets need updating to take account of marketing innovations like MySpace, but otherwise there is a great deal of helpful information to be found there from people who know the business inside out.

Jacey Bedford's own website also has 'help files' on **Why you don't need an agent** and **What's a percentage deal?** Read these at www.jacey-bedford.com

The Welsh Music Foundation's excellent but now, sadly, defunct publication **Sound Nation** published a huge range of guides to everything from self-publication of CDs, contracts, distribution, setting up a mailing list etc etc. Fortunately these are still available on-line at the WMF website, and though they were written for a pop/rock readership they are still relevant to folk or traditional musicians wanting to get their music heard.

Publicise yourself

You need a **website** if you have the expertise or money to set it up and keep it up to date. If not, then MySpace is free, easy to maintain, and has networking advantages over stand-alone websites. Get yourself a page at www.myspace.com and while you're at it, a profile on bbc.co.uk/wales/music and/or a page on Facebook (or Perthyn if you're Welsh-speaking).

List your music events not just with trac's e-news but also with dedicated folk listings sites such as www.folkwales.org.uk, www.casbar.co.uk, and welshfolk@yahoo.co.uk

There are also broader sites such as www.ents24.co.uk, www.themusicwellhome.co.uk, www.folking.com, www.nationalgiggguide.com, and within Wales there's www.whatsonwales.co.uk and BBC Wales's music site at bbc.co.uk/wales/music which has listings.

The Clerorfa

Clera's 50-strong Folk Orchestra - see article on page 13



Y Glerorfa

Cerddorfa Werin Clera, gyda'i 50 o offerynwyr – gweler yr erthygl ar dudalen 12

Ontrac

Ontrac yw cylchgrawn **trac: traddodiadau cerdd cymru / music traditions wales**, corff datblygu traddodiadau gwerin Cymru.

Mae pob erthygl ar gael mewn print bras un ai ar bapur neu yn electroneg.

Os oes ganddoch chi newyddion, barn neu wybodaeth o ddiddordeb i bawb sy'n ymwneud â cherddoriaeth draddodiadol yng Nghymru, cysylltwch â ni:

trac

Blwch Post 428

Caerdydd CF11 1DP

029 20 318863 / 07811 955592

trac@trac-cymru.org

www.trac-cymru.org

Ontrac

Ontrac is the magazine of **trac: traddodiadau cerdd cymru / music traditions wales**, the folk development organisation for Wales.

All articles are available in large print either on paper or electronically.

If you have news, views, or information of interest to the traditional music community in Wales, please contact us:

trac

PO Box No. 428

Cardiff CF11 1DP

029 20 318863 / 07811 955592

trac@trac-cymru.org

www.trac-cymru.org

**dyfodol y traddodiad a
thraddodiad y dyfodol**

**the future of the tradition
& the tradition of the future**

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government



trac
folk development for wales
datblygu traddodiadau gwerin



CEFNOGI CREADIGRWYDD
CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU
THE ARTS COUNCIL OF WALES
SUPPORTING CREATIVITY